# Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013

**2013 dccc 6**

## RHAN 6

ATODOL A CHYFFREDINOL

### 61 Ystyr "cymdeithas trigolion gymwys"

(1) At ddibenion y Ddeddf hon mae cymdeithas yn "gymdeithas trigolion gymwys", o ran safle—

(a) os yw'n gymdeithas sy'n cynrychioli meddianwyr cartrefi symudol ar y safle,

(b) os yw meddianwyr o leiaf 50 y cant o'r cartrefi symudol hynny'n aelodau o'r gymdeithas,

(c) os yw'n annibynnol ar berchennog y safle, sydd ynghyd ag unrhyw asiant neu gyflogai i'r perchennog, wedi ei wahardd rhag bod yn aelod,

(d) os yw aelodaeth, yn ddarostyngedig i baragraff (c), yn agored i feddianwyr pob cartref symudol ar y safle,

(e) os yw ei rheolau a'i chyfansoddiad yn agored i'r cyhoedd gael edrych arnynt ac os yw'n cynnal rhestr o aelodau,

(f) os oes ganddi gadeirydd, ysgrifennydd a thrysorydd sy'n cael eu hethol gan ac o blith yr aelodau, ac

(g) ac eithrio penderfyniadau gweinyddol a gymerir gan y cadeirydd, yr ysgrifennydd a'r trysorydd gan weithredu yn eu swyddogaethau swyddogol, os yw'r penderfyniadau'n cael eu cymryd drwy bleidleisio a bod 1 bleidlais yn unig i bob cartref symudol.

(2) Dim ond 1 meddiannydd o bob cartref symudol a gaiff fod yn aelod o'r gymdeithas; ac, os oes mwy nag 1 meddiannydd mewn cartref symudol, yr un sydd am fod yn aelod o'r gymdeithas yw p'un bynnag ohonynt y mae'r meddianwyr yn cytuno arno neu, yn niffyg cytundeb, yr un sydd a'i enw yn gyntaf ar y cytundeb i osod y cartref symudol ar y safle.

(3) Nid yw cymdeithas yn gymdeithas trigolion gymwys o ran safle oni bai bod rhestr gyfoes o'r aelodau wedi ei chyflwyno i'r awdurdod lleol y mae'r safle wedi ei leoli yn ei ardal.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(4) Pan fo copi o'r rhestr o aelodau cymdeithas wedi ei gyflwyno i awdurdod lleol, rhaid i'r awdurdod lleol—

(a) cymryd camau rhesymol i ganfod a yw meddianwyr o leiaf 50 y cant o'r cartrefi symudol ar y safle yn aelodau o'r gymdeithas, a

(b) rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r gymdeithas ac i'r perchennog yn datgan a yw wedi ei fodloni neu beidio fod meddianwyr o leiaf 50 y cant o'r cartrefi symudol ar y safle yn aelodau o'r gymdeithas.

(5) Pan roddir hysbysiad i gymdeithas fod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni bod meddianwyr o leiaf 50 y cant o'r cartrefi symudol ar y safle yn aelodau o'r gymdeithas, mae'r ddyletswydd i gyflwyno rhestr gyfoes o'i haelodau yn ei gwneud yn ofynnol iddi wneud hynny cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl unrhyw newidiadau yn ei haelodaeth.

(6) Os yw'n ymddangos i'r awdurdod lleol ar unrhyw adeg nad yw aelodau cymdeithas trigolion gymwys mwyach yn cynnwys meddianwyr o leiaf 50 y cant o'r cartrefi symudol ar y safle, rhaid i'r awdurdod lleol roi hysbysiad ysgrifenedig ar unwaith i'r gymdeithas ac i berchennog y safle nad yw y gymdeithas yn gymdeithas trigolion gymwys mwyach.

(7) Yn yr adran hon—

ystyr "cytundeb cymrodeddu" ("*arbitration agreement*") yw cytundeb ysgrifenedig i gyflwyno at gymrodeddu gwestiwn ynghylch a yw cymdeithas yn gymdeithas trigolion gymwys;

ystyr "meddiannydd" ("*occupier*"), o ran cartref symudol a safle yw person sydd â hawl—

(a) i osod y cartref symudol ar y safle, a

(b) i feddiannu'r cartref symudol fel unig neu brif breswylfa'r person; ac

ystyr "tribiwnlys" ("*tribunal*"), o ran perchennog y safle a chymdeithas sy'n cynrychioli meddianwyr cartrefi symudol ar y safle, yw tribiwnlys eiddo preswyl neu, os yw'r perchennog a'r gymdeithas wedi gwneud cytundeb cymrodeddu sy'n gymwys i unrhyw gwestiwn a yw'r gymdeithas yn gymdeithas trigolion gymwys sy'n codi cyn i'r cytundeb cymrodeddu gael ei wneud, y cymrodeddwr.

(8) Mae datgelu rhestr o aelodau cymdeithas trigolion gymwys i'r cyhoedd gan awdurdod lleol, sef rhestr a gyflwynwyd i'r awdurdod hwnnw i'w drin at ddibenion adran 41(1) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 fel pe bai'n torri cyfrinach y caiff aelodau'r gymdeithas ddwyn achos yn ei erbyn; ond nid oes dim yn yr is-adran hon yn gymwys i ddatgelu manylion y cadeirydd, yr ysgrifennydd neu'r trysorydd.